

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 256

**Gorchymyn Datblygu Arbennig Cynllunio Gwlad a Thref (Safle
Rheoli ar y Ffin Gogledd Cymru) (Ymadael â'r UE) 2023**

Enwi, dod i rym a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Datblygu Arbennig Cynllunio Gwlad a Thref
(Safle Rheoli ar y Ffin Gogledd Cymru) (Ymadael â'r UE) 2023 a daw i rym ar 28 Mawrth 2023.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i "y tir" fel y'i diffinnir yn erthygl 2.